




Manteision - Ysgogi - Cysylltu amrywiaeth eang o bynciau. - Gwaith sydd o ddiddordeb i bawb. - Modd dilyn llais y plentyn. - Diddordeb cyffredinol y dosbarth. - Ehangu dealltwriaeth plant (Barnes, 2015).	Cyfngiadau: - Angen gwybodaeth a dealltwriaeth pwnc cadarn. - Angen i gysylltiadau thematig fod yn glir i sicrhau llwyddiant. - Rhaid iddo fod o ddiddordeb i sicrhau llwyddiant. (Barnes, 2015). - Adnoddau, megis arrieffactau sydd o bosib angen cyllido.	Manteision - Cysylltu gwersi. - Hybu ymatebion creadigol wrth y plant. - Ymglymiad posib rhieni a'r gymuned ehangach. - Hybu elfen hollol newydd yn y pen draw (noson cawl a chŵn gyntaf y pentref) (Barnes, 2015).	Cyfngiadau: - Posibilrwydd mae 'hanner deal' yn unig fydd y plant. - Rhaid sicrhau gwybodaeth pwnc cadarn. - Rhaid dilyn diddordeb y plant, megis dysgu am eu hunaniaeth (Barnes, 2015).
---	--	---	--

Y cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd:

Cyfrifoldeb yw addysgu llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn drawsgwricwlaidd yn dilyn **cyflwyniad adolygiad Donaldson** (2015). Rhaid ystyried fod llythrennedd a rhifedd eisoes yn **gyfrifoldebau trawsgwricwlaidd** yn dilyn cyflwyniad 'Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd' (2013), i **sicrhau cyfleoedd i blant cymhwyso a chaffael sgiliau ar draws y cwricwlwm** (APADGOS, 2013). Er hynny noda Donaldson (2015) y pwysigrwydd o **drin Cymhwysedd Digidol yn gyfartal a'r ddau gyfrifoldeb arall** oherwydd arwyddocâd technoleg yn ein cymdeithas (APADGOS, 2014). Wrth addysgu'r cyfrifoldebau'n drawsgwricwlaidd mae'n bosib ymateb i'r hyn noda Williams (2017) sef **codi safonau yw cenhadaeth ein cenedl**, gan gofio mai nod y cyfrifoldebau yw datblygu sgiliau gydol oes disgyblion gan sicrhau nid fydd yr un ohonynt wedi'u hamddifadu o'r sgiliau yma.

Gofynion:

Golyga'r cyfrifoldebau mi fydd modd hybu amrywiaeth o sgiliau hanfodol a datblygiad academiaidd y disgyblion. Fel gweler yn yr enghreifftiau uchod, megis y wers pwysu, mi fydd modd hybu **elfennau megis datrys problemau a chydweithio**, sef elfen allweddol yn ôl damcaniaeth Vygotsky gan ddysga plant bron 80% o'r hyn maent yn dysgu oddi wrth ei gilydd (APADGOS, 2010). Rhaid cofio mae'r 'Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd' presennol medru **cysylltu gyda phob gwers, i blant caffael a chymhwyso** amrywiaeth o sgiliau, elfen sydd angen datblygu yn ôl Estyn (2011).

Sicrhier addysgu'n drawsgwricwlaidd mi fydd plant medru **trosi'u sgiliau i sefyllfaoedd pob dydd**, gan fod gwersi megis cerddoriaeth yn hybu iaith lafar a sgiliau Mathemateg (Kelly a Stead, 2013).

Estyn a'r dyfodol:

Cynigir y cyfrifoldebau cyfleoedd i blant trosi'r sgiliau maent eisoes wedi dysgu a **datblygu'r sgiliau i sefyllfaoedd newydd** (Estyn, 2011). Nid oes ffiniau i addysgu'n drawsgwricwlaidd le mae cyfleoedd i ehangu profiadau uniongyrchol y plant ac i ddatblygu'r cyfrifoldebau ar draws y cwricwlwm gan **baratoi plant ar gyfer byd sydd eisoes yn datblygu'n barhaus** (Hayes, 2010).

Mae **angen i'r hyn maent yn dysgu fod o bwys iddynt**, gyda **phwrpas clir** i unrhyw sgiliau maent yn datblygu (Donaldson, 2015), wrth sicrhau mi fydd y **sgiliau a datblygir yn cysylltu gyda gofynion eu hoedran**, (Estyn, 2017) fel gwelir yn yr enghreifftiau yn y modelau uchod, megis sgiliau pwysu ansafonol. Gan gofio hyn mi fydd angen sicrhau **agwedd cadarnhaol disgyblion at eu gwaith** (Estyn, 2017), gan roi cyfleoedd i blant ddewis yr hyn maent am ddysgu (Estyn, 2018), wrth sicrhau fod llais y plentyn yn arwyddocaol iawn wrth ddarparu addysg yn seiliedig ar hawliau plant gan roi cyfle iddynt bwysleisio pwysigrwydd yr hyn effeithia amynt (CCUHP, 2018).

Pethau pwysig:

- Wrth integreiddio'r cyfrifoldebau ar draws y cwricwlwm, rhaid manteisio ar gyfleoedd o sicrhau cysylltiadau gydag elfennau megis ADCDF a'r Cwricwlwm Cymreig wrth dathlu elfennau megis hunaniaeth (APADGOS, 2003).
- Modd asesu'r amrywiaeth o sgiliau ar draws y cwricwlwm gan gofio mai'r bont rhwng dysgu ac addysgu yw asesu (Donaldson, 2015).
- Defnydd o'r modelau posib, megis drwy waith thema, a sicrhau cysylltiadau ar draws y cwricwlwm (Barnes, 2015).
- Rhaid sicrhau **cysylltiadau clir a phwrpasol gyda'r cwricwlwm** (Donaldson, 2015), le gwelir lle annatod i'r cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd.
- **Amrywiaeth o amgylcheddau dysgu**, gan gynnwys amgylcheddau yn yr awyr agored (APADGOS, 2015), gwelir arfer dda o'r dull yma yn Reggio Emilia, wrth i blant ddatblygu sgiliau hanfodol yn uniongyrchol gan fod dysgu gweithredol i ennyn diddordeb yn dilyn egwyddorion arfer dda'r Cyfnod Sylfaen, wrth **gynllunio amgylcheddau sy'n galluogi cynnydd** (Grigg, 2014).

Y ffordd ymlaen:

Wrth gofio'r holl elfennau am y tri chyfrifoldeb mae rhaid cofio mi fydd angen sicrhau newidiadau a chynllunio addas ar gyfer gweithredu'r cyfrifoldebau:

- Rhaid cofio mi fydd angen i'r dysgu fod yn addas ac o ddiddordeb i'r plant, gan gofio rôl allweddol rhieni yn eu addysg, gan mai **yn y cartref mae addysg yn dechrau**.
- **Cyllid** - Er mi fydd heriau posib cyllido ambell newid, mae pob ysgol gyda photensial i sicrhau'r newidiadau, gyda phosibilrwydd o ddefnyddio cyllid grant datblygu disgyblion i ariannu unrhyw newidiadau megis technoleg.
- Parhau i gynllunio gwersi sydd â lle annatod i'r cyfrifoldebau, **nid elfen ychwanegol ydynt**.
- Ymweliadau i ysgolion arfer da, sy'n arloesi yn y cwricwlwm newydd, ac yn darparu'r addysg gorau drwy integreiddio'r cyfrifoldebau ar draws y cwricwlwm cyfan, gan **ddarparu cyfleoedd eang a phrofiadau uniongyrchol ar gyfer y plant mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac amgylcheddau i geisio codi safonau** (APADGOS, 2013).
- **Sgaffaldio'r dysgu** gan ddilyn damcaniaeth Bruner, a Vygotsky, o'r 'Parth Datblygiad Procsimol' (Hopwood a Defis, 2017).